

10.08.21

Cefnogi dyfodol gweithlu treftadaeth ddiwylliannol Cymru gyda hyfforddiant â thâl

## Bydd carfan newydd o hyfforddeion yn dechrau eu gyrfaedd ym maes treftadaeth ddiwylliannol ar draws Cymru fel rhan o'r rhaglen Uchelgais Diwylliannol

**Mae'r rhaglen yn rhedeg ers pedair blynedd bellach, a chaiff ei hariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru. Ers 2018, mae'r rhaglen wedi darparu sgiliau a phrofiad gwaith i 30 o bobl ifanc ledled Cymru ar draws y sector treftadaeth ddiwylliannol drwy hyfforddiant â thâl.**

Yr haf hwn, bydd pedwar hyfforddai newydd yn ymuno â rhaglen Uchelgais Diwylliannol, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol (CCSkills), a byddant yn mynd i leoliadau gwaith mewn safleoedd treftadaeth ddiwylliannol ledled Cymru: Archifau Morgannwg, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Ceredigion, Plas Mawr/Castell Conwy, Canolfan Ddiwylliant Conwy, Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru a Thŷ Tredegar.

Mae pobl ifanc yng Nghymru yn enwedig wedi cael eu taro'n galed gan Covid-19, gyda 21% o weithwyr 25 oed ac iau yn gweithio o fewn y sectorau lle roedd swyddi yn wynebu'r risg fwyaf yn ystod y pandemig, gan arwain at gynnydd 'sylweddol' yn nifer yr unigolion 18-24 oed oedd yn hawlio budd-daliadau diweithdra yn 2020. Mae'r rhaglen uchelgais diwylliannol ar agor i unigolion rhwng 18-24 oed nad ydynt wedi graddio, ac sydd ddim mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant ar hyn o bryd. Mae wedi'i dylunio i gefnogi pobl ifanc na fyddai, fel arall, yn gallu gwneud cymhwyster galwedigaethol mewn safleoedd drwy fwrariaeth â thâl.

Yr hyfforddai yw **Bilal Abdi, 23, o Gaerdydd** sydd wedi gwirfoddoli'n flaenorol yng Nghlwb Ieuenctid y Pafiliwn, ac sy'n mwynhau gweithio gyda phobl ifanc i gefnogi, ysbrydoli a'u mentora nhw; **Dafydd Syfydrin, 23 o Geredigion**, sy'n siaradwr Cymraeg rhugl ac sydd wedi datblygu gwerthfawrogiad am ddiwylliannau gwahanol drwy ei waith gwirfoddol a gwaith â thâl yn Affrica ac Awstria, a'i brofiad o ymweld â safleoedd treftadaeth ddiwylliannol yn ystod tripliau ysgol; **Ottie Foster-Alexander, 18, o Gonwy**, sy'n angerddol dros hanes a diwylliant, sy'n amlwg iawn drwy ei gyfranogiad mewn grŵp efelychol canoloesol o Farchogion; **Daniel Davies, 18, o Dorfaen** sydd â diddordeb go iawn mewn hanes a magu sgiliau newydd, ac sydd ag atgofion melys o ymweld â Big Pit yn blentyn ysgol, lle fydd yn treulio un o'i gyfnodau profiad gwaith.

Yn ystod y rhaglen ddeg mis o hyd, bydd yr hyfforddai yn cwblhau 2-3 lleoliad gwaith yn y safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a restrwyd, a byddant yn cael eu mentora gan staff ac yn cael golwg fanwl ar y gwaith sydd ynghlwm â rhedeg y sefydliadau hyn ar draws amrywiaeth o adrannau. Byddant hefyd yn cymryd rhan mewn dosbarthiadau meistr ar-lein a arweinir gan weithwyr proffesiynol o'r safleoedd gwahanol, gan roi dealltwriaeth iddynt o'r math o waith a chyflogwyr sy'n bodoli y tu hwnt i'w rhanbarth lleol.

Gyfochr â'u lleoliadau gwaith, bydd hyfforddeion yn gweithio tuag at gymhwyster NVQ Lefel 2 mewn Treftadaeth Ddiwylliannol, a fydd yn cael ei ddarparu drwy sesiynau ar-lein gyda Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys hyfforddiant cyflogadwyedd fydd yn darparu'r lleoliadau gwaith gyda chefnogaeth ar sut i ysgrifennu CV a cheisiadau swydd, yn ogystal â sgiliau cyfweld.

Mae hyfforddeion blaenorol y Rhaglen Uchelgais Diwylliannol wedi mynd ymlaen i weithio i gwmnïau treftadaeth ddiwylliannol yng Nghymru, neu wedi ailgydio mewn addysg bellach.

**Dyma ddywedodd Harri Macguire, oedd yn rhan o'r garfan gyntaf yn 2018, ac sydd bellach yn gweithio i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, am y profiad:** *'Roeddwn mewn cyfng gyngor, ac yna penderfynais wneud yr hyfforddiant sydd wedi fy arwain yma heddiw...Mae'n brofiad perffaith i rywun sy'n ystyried gyrfa mewn diwylliant a threftadaeth.'*

**Dywedodd Jane Ide, Prif Swyddog Gweithredol CCSkills:** *'Rydym yn falch iawn fod ein rhaglen Uchelgais Diwylliannol yn gallu croesawu carfan newydd o hyfforddeion ar ôl yr 16 mis diwethaf, sydd wedi bod yn gyfnod mor heriol i'r sector treftadaeth ddiwylliannol a phobl ifanc. Mae llwybrau mynediad galwedigaethol i'r diwydiannau creadigol a diwylliannol wrth wraidd ein gwaith yn CCSkills ac mae ymyriadau tymor hir â thâl fel hyn yn hanfodol i bobl ifanc na fyddent byth yn gallu manteisio ar yr amrywiaeth o swyddi yn y sector treftadaeth ddiwylliannol sydd yn ffynnu yng Nghymru.'*

**Dywedodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon yn Llywodraeth Cymru, Dawn Bowden:** *'Mae'r rhaglen Uchelgais Diwylliannol yn parhau i ddarparu cyswllt allweddol i Ddiwylliant yng Nghymru, a sgiliau hanfodol i hyfforddeion, ac adfywio lleoliadau drwy ddenu sgiliau a brwdfrydedd newydd. Ers dechrau'r rhaglen, rwyf wedi fy mhlesio'n fawr gan yr adroddiadau ar yr effaith mae'n ei gael ar yr unigolion sy'n ei dilyn - mae wedi newid bywydau'r rhan fwyaf o'r unigolion. Mae symud ymlaen at addysg uwch, gwaith gwirfoddol a dod o hyd i swyddi ym maes diwylliant yn fuddiol i bawb.'*

**Dywedodd Andrew White, Cyfarwyddwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yng Nghymru:** *'Rydym yn falch iawn o gefnogi'r rhaglen Uchelgais Diwylliannol, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol a'r rôl hanfodol mae'n ei chwarae wrth helpu pobl ifanc i weithio trwy hyfforddiant, profiad gwaith a'r cyfle i ennill cymwysterau. Ar ôl cyfnod mor heriol, sydd wedi effeithio'n sylweddol ar bobl ifanc yn enwedig, hoffem ddymuno'r gorau i Bilal, Dafydd, Ottie and Daniel wrth iddynt gymryd y cyfle hwn i feithrin a datblygu eu sgiliau, eu hyder a'u profiad o fod yn y gweithle.'*

**-DIWEDD-**

## **Nodiadau i Olygyddion**

Gwaith Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yw creu sector diwylliannol teg a medrus drwy fireinio sgiliau ac arfer orau mewn addysg a chyflogaeth. Rydym yn ysgogi gweithredoedd ac yn darparu cyfleoedd dysgu sy'n creu newid, a helpu i adeiladu sector medrus a chynhwysol drwy: hysbysu a helpu'r sector i ymateb i newidiadau yn y system addysg dechnegol; helpu cyflogwyr i weld y manteision o weithlu cynhwysol; gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r opsiynau gyrfaol ar draws y sector diwylliannol, ac yn ei dro, yn bwydo dawn newydd i'r gweithlu a chefnogi'r sector i barhau i dyfu'n economaidd a bodloni nodau amrywiaeth.

Am ragor o wybodaeth, delweddau neu gyfweiliadau, cysylltwch â Swyddfa'r Wasg Sgiliau Creadigol a Diwylliannol. Ff: 020 7015 1800|

[info@ccskills.org.uk](mailto:info@ccskills.org.uk)

